# JONES, JOHN (1801 - 1856), Llangollen, gweinidog gyda'r Annibynwyr, dadleuwr, a bardd

**Enw:** John Jones
**Dyddiad geni:** 1801
**Dyddiad marw:** 1856
**Rhiant:** Ruth Jones
**Rhiant:** Thomas Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr, dadleuwr, a bardd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd 10 Ebrill 1801 yn Tan yr Ogof, ger Abergele. Bu'n gweithio fel mwnwr a glowr nes symud ohono i Langollen i fod yn ysgrifennydd i Syr Watkin Williams-Wynn. Daeth i amlygrwydd i ddechrau fel areithiwr ar ddirwest, ac ef oedd ysgrifennydd cymanfa ddirwestol fawr yng Nghaernarfon yn 1837 a ' Williams o'r Wern ' yn gadeirydd iddi. Yn 1839 symudodd i Rosllannerchrugog ac ymunodd â'r Annibynwyr ac yno y dechreuodd bregethu. Daeth wedyn i'r maes fel dadleuwr ac ysgrifennydd ar fedydd. Bu dadl gyhoeddus rhyngddo a gweinidog Rhymni, dadl a ddaeth i'w hadnabod fel ' Dadl Fawr Rhymni.' Yn Hydref 1842 urddwyd ef yn weinidog eglwysi Rhydybont, Capel Nonni, a Brynteg, Sir Aberteifi. Ni fu dim llewyrch ar ei waith fel gweinidog gan mor amddifad oedd o ddawn y weinidogaeth. Aeth ati i gyhoeddi llyfrau yn Rhydybont, a symudodd at yr un gorchwyl i Ferthyr Tydfil ac oddi yno drachefn i Aberpennar; yn y lle hwnnw dechreuodd adeiladu capel i ryw ychydig a ymlynai wrtho, ond cyn ei orffen, yn 1854, dihangodd i America gan eu gadael mewn helbul mawr. Bu farw yn Cincinnati 19 Tachwedd 1856 wedi gyrfa ramantus a llawn cythrwfl.

G r o alluoedd diamheuol ond hynod o ddi-ddal. Gallai lunio cân yn fedrus a daeth ei gân ' Deio Bach ' yn adnabyddus iawn. Ymhlith ei weithiau ceir: *Y Bedyddiwr*, 1842; *Adroddiad o'r Ddadl ar Fedydd yn Rhymni rhwng T. G. Jones a J. Jones o Langollen ...*, 1841; *Brad y Drôch*, 1841; *Catecism Bedydd*, 1842; *Adroddiad Dadl Llantrisant*, 1842; *Testament yr Ysgol Sabothol*, 1849; *Y Seren Foreu*, 1846.

Brawd iddo oedd Daniel Jones, 1811 - 1861, y Mormon.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen**, (1890 - 1973)

## Ffynonellau

*Cymru (O.M.E.)*, ii, 6, 86, 136; xl, 287; li, 109

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 548-50

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733502

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu